## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 1: TREFFYNNON

### Lleoliad:

**Yng ngogledd-orllewin Sir Benfro gyda therfyn y Parc Cenedlaethol yn y gogledd, y gorllewin a'r de yn rhannol. Mae'r A487 yn mynd drwy ogledd yr ardal.**







*Yr olygfa i'r gogledd rhwng Croes Cas-lai a Breudeth*



*Yr olygfa i'r gorllewin o fan ger Cas-blaidd*



*Yr olygfa i'r gorllewin ar hyd yr A487 i Fathri*

### Disgrifiad Cryno:

**Ffurfiwyd yr ardal hon yn gyffredinol o dir amaeth bryniog agored o gaeau cymedrol eu maint gyda rhwydwaith o lonydd rhwng gwrychoedd / cloddiau'n ei chroesi. Mae clystyrau bach achlysurol o goetir a gwregys prysgwydd i'w gweld drwy'r ardal gyfan. Mae pentrefi'n cynnwys Mathri, Croes-goch a Chroes Cas-lai a Barics Cawdor ym Mreudeth (a safle hen Faes Awyr RAF Brawdy) ar ben bryniau, yn ogystal â ffermydd a phentrefannau yma ac acw. Mae amryw gymoedd coediog bach cymharol gryno'n weledol. Mae'r ymylon gogleddol a thir uwch yn creu**

**golygfeydd i'r arfordir. Yn ne-ddwyrain yr ardal mae canolfan a maes awyr blaenorol RAF Brawdy.**

## Nodweddion Allweddol

- Mae daeareg sylfaenol yn ffurfio cyfres o gribau eang isel yn bennaf o dywodfeini a llechi Ordofigaidd a Chambriaidd, gydag allwthiadau folcanig. Arweiniodd prosesau rhewlifol blaenorol at ddyddodion rhewlifol, ffinrewlifol a ffrwd-rewlifol yn enwedig ar loriau cymoedd.
- Y patrwm anheddu yw ffermydd gwasgaredig a phentrefannau yma ac acw a phentrefi cnewyllol a hirgul gan gynnwys Mathri, Y Sgwâr, Croes Cas-lai a Chroes-goch, yn bennaf o'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif er y gallant fod â chreiddiau hanesyddol cynharach.
- Y dirwedd yn bennaf yw tir pori bras. Yma mae caeau rheolaidd ac afreolaidd o faint cymedrol o laswelltir wedi'i wella gyda thir âr yn ffurfio elfen nodedig o fewn tir isel bryniog o lonydd ymylog, clystyrau bach achlysurol o goetir a chymoedd coediog bach cymharol gryno'n weledol lle mae ffrydiau, nentydd, Afon Solfach a Chleddau Wen yn llifo.
- Cynefinoedd yw brithwaith o goetir llydanddail, prysgwydd trwchus, porfa gorslyd a rhedyn gyda chynefinoedd coediog mewn cymoedd cul hir gyda chyrsiau dŵr. Mae darnau bach o gynefinoedd eraill, yn fwyaf nodedig porfa gorslyd a rhostir gwlyb, yn bresennol hefyd.
- Y patrwm ffyrdd yn bennaf yw lonydd gwledig a Ffyrdd B gyda'r A487 yn croesi ar draws gogledd yr ardal.
- Mae'r ardal yn cynnwys amrywiaeth gyfoethog o Adeiladau Gofynion Rheoli Statudol, Henebion Rhestredig, Adeiladau Rhestredig, ac Ardal Gadwraeth ym Mathri, gyda nifer o safleoedd archeolegol, o bob cyfnod, yn cynnwys eglwysi canoloesol, cestyll canoloesol o garreg a chloddwaith, a henebion Neolithig.
- Rhai dylanwadau diwylliannol yw mwy o siaradwyr Cymraeg nag ymhellach i'r de a maes awyr Breudeth, maes awyr segur o'r Ail Ryfel Byd sy'n cynnal hanes maith o bresenoldeb milwrol yn Sir Benfro. Mae nifer o adeiladau a gosodiadau maes awyr, gan gynnwys adeiladau barics, yn dal yn y golwg, ynghyd â rhedfeydd a ffyrdd y maes awyr. Mae Barics Cawdor yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gan y 14eg Catrawd Signalau.

## Rhinweddau Allweddol

*Ardal eang o dirwedd amaethyddol isel bryniog gyda darnau bach o goetir, gwrychoedd rheoledig a rhwydwaith trwchus o lonydd cul. Cymharol ychydig o anheddau sydd, gyda ffermydd yma ac acw yn y dirwedd. Daw ymdeimlad cryf o ardal hirhoedlog drwy dai ac adeiladau fferm traddodiadol, ac archeoleg. Fe all sŵn ac ymdeimlad o symud ar ffyrdd dosbarth A effeithio ar gymunedau min y ffordd tra bo ffyrdd troellog cul ar loriau cymoedd yn creu ymdeimlad o amgaead a neilltuaeth. Mae'r ardal yn gymharol hunangynhwysol a mewnblyg, er bod golygfeydd i'r arfordir tua'r gogledd a'r gorllewin yn creu cysylltiad â'r arfordir a golygfeydd i gyfeiriad Carn Ingli i'r dwyrain yn cynorthwyo creu ymdeimlad o le.*

### Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

#### Ddoe a Heddiw

- Tra bo addasu adeiladau amaethyddol traddodiadol i ddefnyddiau eraill gan gynnwys llety preswyl a gwyliau wedi cynorthwyo'u cadw, fe all codi adeiladau amaethyddol mawr modern fod yn hyll.
- Cadwyd gwrychoedd i raddau helaeth ond, fodd bynnag, gallant gael eu rheoli'n wael neu eu disodli gan ffensys pyst a gwifrau.

- I raddau helaeth mae datblygiadau ynni adnewyddadwy, gan gynnwys tyrbinau gwynt, yn achlysurol ac ar raddfa fach.
- Mae goleuo ffermydd a phentrefannau wedi cyflwyno llygredd goleuni lleol draw o brif anheddau.
- At ei gilydd, cuddiwyd meysydd carafanau teithiol a gwersylla'n dda ac maent yn dymhorol, ond fe all safleoedd carafanau sefydlog fod yn amlwg ac ymwthiol.



*Ffensys pyst a gwifrau o fewn yr ACT*



*Barics Breudeth*

**Y Dyfodol**

- Pwysau cynyddol am ddatblygiad preswyl mewn anheddau ac fel datblygiad ar wahân.
- Byddai cau Barics Cawdor Breudeth yn debygol o arwain at bwysau i ailddatblygu a pheri newid diwylliannol ac economaidd.
- Bygythiad parhaus o golli neu esgeuluso cloddiau terfyn traddodiadol a choetir.



*Adeiladau cryno ym Mathri'n cadw cymeriad traddodiadol*



*Golygfa allan i'r Parc cenedlaethol i'r gogledd-ddwyrain*

**Pethau Sensitif Allweddol**

- Golygfeydd panoramig allan i'r arfordir – byddai cyflwyno nodweddion mawr neu amlwg yn torri ar draws golygfeydd y gorwel i gyfeiriad yr arfordir yn effeithio'n sylweddol ar y berthynas gydag ardaloedd cyfagos.

- Newidiadau i ffurf a chymeriad adeiladau traddodiadol, gan gynnwys cartrefi ac adeiladau amaethyddol.
- Ymestyniad arwynebedd caeau a cholli gorchudd brithwaith coetir.
- Cyflwyno llety ymwelwyr ar raddfa fawr ac ymwthiol.

**Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella**

- Rheolaeth well ar wrychoedd, gwregysau coed a chlytiau coetir sy'n ychwanegu amrywiaeth a chymeriad at y dirwedd a bioamrywiaeth.
- Cadw cymeriad anheddu a sicrhau bod perthynas dda rhwng datblygiad yn y dyfodol a chymeriad a ffurf anheddau a ffermydd.
- Osgoi datblygiadau amlwg ar y gorwel.


*Coed mewn gwrychoedd ger Croes Cas-lai*


*Cuddiwyd maes carafanau ger yr A487 yn wael*


*Maes carafanau a thyrbin gwynt ger Breudeth*

| |
|---|
| **ACT Awdurdodau Cyfagos** |
| **APCAP:** ACT 21 Pen Caer |

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 2: TREMARCHOG

## Lleoliad:

**Mae'r ACT hon yng ngogledd Sir Benfro ac i'r gorllewin o Abergwaun ac Wdig. Mae ei ffin ogleddol yn rhedeg ar hyd terfyn y Parc Cenedlaethol ger Pen Caer.**







*Golygfa i gyfeiriad Garn Gelli o'r Gogledd-ddwyrain*



*Yr olygfa i'r dwyrain i gyfeiriad Carn Gelli*



*Yr olygfa i'r gogledd-ddwyrain o fan ger Tremarchog*

## Disgrifiad Cryno:

**Yr ACT yn gyffredinol yw tir pori amaethyddol gyda chaeau o fewn cloddiau terfyn gyda dim ond ychydig anheddau (Tremarchog a Rhosycaerau) a phentrefannau a ffermydd prin. Mae clystyrau bach o goed a phrysgwydd yma ac acw. Yn y dwyrain mae bryniau tir isel gyda brigiadau creigiog agored mewn brithwaith o laswelltir garw a rhostir. Mae'r copaon yn rhoi**

**golygfeydd panoramig i Fynydd Preseli tua'r dwyrain ac i'r arfordir tua'r gogledd a'r gorllewin sy'n ychwanegu at yr ymdeimlad o le.**

### Nodweddion Allweddol

- Prosesau rhewlifol a ffinrewlifol sydd wedi llunio'r cribau tir isel o frigiadau creigiau folcanig Ordofigaidd ac ymwthiadau igneaidd gyda gwastadedd allolchi yn bennaf o dywod a graean a gafodd eu weithio mewn rhai mannau. Mae prosesau gweithredol yn cynnwys nentydd, tarddelli, pyllau a chorsydd.
- Tirwedd amaethyddol fryniog braf o gaeau afreolaidd cymedrol eu maint gyda chlystyrau coed a phrysgwydd achlysurol o fewn gwrychoedd a chloddiau terfyn, a chyfresi o fryniau isel gyda brigiadau creigiog agored mewn brithwaith o borfa a rhostir.
- Ffurfiwyd y patrwm anheddu o ffermydd gwasgaredig, a phentrefannau a phentrefi yma ac acw gan gynnwys Tremarchog. Yn gyffredinol mae datblygiad ar raddfa fach ac yn briodol / ystyriol o ddeunyddiau carreg a rendro traddodiadol yr ardal tra defnyddiwyd deunyddiau mwy modern, gan gynnwys ffrâm ddur, blociau heb rendro a llenni metel mewn rhai adeiladau amaethyddol. Mae peth eiddo o'r 20fed ganrif yn gyffredinol heb ddylanwad dylunio lleol.
- Mae cysylltiadau gweledol yn cynnwys golygfeydd i gyfeiriad arfordir y gogledd a'r gorllewin o dir uwch ac ar draws i Fynydd Preseli yn y dwyrain. Mae'r dirwedd amaethyddol fryniog yn cadw cysylltiad â'r arfordir ac ymdeimlad cryf o dirwedd ddigysgod, lonydd ac anghysbell.
- Lleol yw'r cysylltiadau diwylliannol dan ddylanwad datblygu amaethyddol a gwledig yn cynnwys cyfnodau Canoloesol Diweddar, Sioraidd, Fictoraidd ac Edwardaidd, gyda chymysgedd gyffredinol o enwau lleoedd Cymraeg a Saesneg ac mae'n fwy dwyieithog na'r gwastadeddau tua'r de.
- Mae'r ardal agwedd gymharol fechan hon yn cynnwys cylch cynhanesyddol a maen hir a beddrod cellog, eglwys a chapel ac adeiladau fferm rhestredig.
- Cynefin yn gyffredinol yw glaswelltir wedi'i wella o gaeau a therfynau. Darnau bach o gynefinoedd eraill gan gynnwys rhostir gwlyb, prysgwydd, porfa gorslyd a choetir conifferaidd a llydanddail.

### Rhinweddau Allweddol

*Ffurfiwyd cysylltiad cryf â'r arfordir trwy olygfeydd ohono, yn enwedig o dir uwch lle mae craig a charreg agored yn creu ymdeimlad cryfach o arwedd a dinoethiad nag ardaloedd yn gyffredinol tua'r de. Yma mae tawelwch a llonyddwch yn dreiddiol ac mae cysylltiadau diwylliannol gydag adeiladau traddodiadol, henebion, enwau lleoedd ac arwyddion Cymraeg yn creu ymdeimlad o hanes a phreswyliad dynol dros gyfnod maith. Mae adeiladau amaethyddol modern, y Golau Llywio a datblygiad preswyl o'r 1950au ymlaen yn teimlo'n anghydnaws yn y dirwedd. Mae golygfeydd i'r de-ddwyrain yn ymestyn i'r tiroedd isel bryniog dan Abergwaun ac Wdig ac yn rhoi cyferbyniad gweledol i'r garwedd a'r ymdeimlad o ddinoethiad yn y rhan hon o ogledd Sir Benfro.*

### Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

### Ddoe a Heddiw

- Yn gyffredinol mae deunyddiau'n briodol mewn datblygiadau cartrefi ar raddfa fach yn ddiweddar gan ddefnyddio carreg a rendro traddodiadol tra bo datblygiadau amaethyddol i raddau helaeth wedi defnyddio deunyddiau modern amhriodol.
- Mae muriau carreg a chloddiau mewn cyflwr gwael mewn mannau.
- Mae adeileddau fertigol modern yn absennol, ac eithrio'r golau llywio awyrennau ger Tremarchog.

**Y Dyfodol**

- Posibilrwydd dal i ddefnyddio deunyddiau amhriodol mewn datblygiad amaethyddol.
- Dylanwadau newid yn yr hinsawdd ar gynefin a bioamrywiaeth.
- Pwysau i gyflwyno datblygiadau ynni adnewyddadwy mewn mannau agored.






*Adeiladau amaethyddol i'r de o Dremarchog* *Arwyddion gormodol i'r de o Dremarchog*

**Pethau Sensitif Allweddol**

- Colli golygfeydd deniadol i mewn i'r ardal ac allan ohoni.
- Colli ymdeimlad o lonyddwch a phellenigrwydd sy'n creu ymdeimlad cryf o le.

**Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella**

- Sicrhau nad yw datblygiad amaethyddol sy'n defnyddio deunyddiau modern yn amlwg yn y dirwedd.
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiad cartrefi yn y dyfodol yn ategu traddodiadau brodorol lleol.
- Sicrhau diogelu golygfeydd panoramig deniadol draw i'r arfordir rhag datblygu amhriodol.
- Sicrhau rheoli'r dirwedd amaethyddol yn briodol er mwyn gwneud y gorau dros warchod a chyfoethogi natur, gan gynnwys lleihau gordyfiant rhedyn a chefnogi dal gafael ar rostir.







| | | |
|---|---|---|
| *Adeilad amaethyddol modern a'r Parc Cenedlaethol y tu hwnt* | *Cynnyrch yr ardd ar werth* | *Golygfa o'r golau llywio* |

| **ACT Awdurdodau Cyfagos** |
|---|
| **APCAP:** ACT 21 Pen Caer; ACT 20 Tre-fin<br>SCA 10 Pen Crincoed a Phen Caer |

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 3: ABERGWAUN ARFORDIROL

### Lleoliad:

**Mae'r ACT hon yng ngogledd Sir Benfro wrth lan y môr ar bwys y Parc Cenedlaethol tua'r gogledd yng Ngharcoed a Phenrhiw a Slade i'r dwyrain, gan ymestyn hefyd tua'r gorllewin i Waun Wdig.**









*Golygfa drefol allan o Abergwaun dros yr harbwr*



*Golygfeydd i mewn i Abergwaun o'r gogledd-orllewin*



*Cwm Abergwaun*

### Disgrifiad Cryno:

**Yr ACT yw anheddau Abergwaun, Cwm Abergwaun ac Wdig, ardal gyfagos yr harbwr a'r traeth, gan gynnwys porthladd fferi Abergwaun a Morglawdd y Gogledd. Mae tirwedd o gaeau amaethyddol a rhostir yn creu lleoliad ac yn ffurfio cefndir wrth edrych o'r de a'r dwyrain. Mae'n ymestyn i derfyn y Parc Cenedlaethol tua'r gogledd gyda thirwedd o gaeau amaethyddol a gweundir ar y llethrau uwchben Wdig. Ar dir isel Gwaun Wdig, mae mynediad cyhoeddus ar hyd llwybrau bordiau at hawliau tramwy cyhoeddus uwchlaw'r corstir sy'n dueddol o orlifo. Mae Cwm Abergwaun yn cadw'i gymeriad morol ar hyd y glannau.**

**Nodweddion Allweddol**

- Mae datblygiad adeiledig dros lawer o'r ddaeareg sylfaenol, ond mae craig igneaidd Ordofigaidd yw agored yn y clogwyn a hefyd yn ymestyn tua'r tir uwch. Datblygwyd llawer o'r tir isel fel rhan o'r harbwr ond, tua'r gorllewin, mae clog-glai rhewlifol / til yn gorwedd o fewn gorlifdir yr afon. I'r de o Abergwaun, llechen Ordofigaidd waddodol sydd bennaf.
- Mae Abergwaun ac Wdig yn anheddau ar wahân ond â chysylltiad agos, gyda chorstir, caeau, a darnau bach o goetir collddail rhyngddynt. Mae cylchoedd trefol yn cadw cysylltiad morol cryf ar y glannau ac, o dir uwch, yn cynnig golygfeydd o'r arfordir, gyda'r goleudy a'r morglawdd ar draws yr harbwr yn ganolbwynt.
- Rhan ogleddol yr ardal o fewn tirwedd hanesyddol Garn Fawr a Phen Caer, ac mae creiddiau hanesyddol Abergwaun, Cwm Abergwaun ac Wdig yn cadw llawer o'u cymeriad gwreiddiol fel Ardaloedd Cadwraeth lle rhestrwyd llawer o'r adeiladau.
- Cadwodd Wdig gymeriad da fel tref harbwr / rheilffordd o ddiwedd y 19$^{eg}$ ganrif a dechrau'r 20$^{fed}$ ganrif ar ochr cwm yn wynebu'r de-ddwyrain. Er ei fod yn anheddiad cnewyllol, mae mannau agored ac ochrau serth cwm coediog bob yn ail â thai'n rhoi gwedd wledig i rannau llechweddog Wdig ac yn cynorthwyo diffinio cymeriad y lle.
- Mae Abergwaun yn tarddu o'r canoloesoedd ond mae datblygiad o'r 18$^{fed}$ ganrif a'r 19$^{eg}$ ganrif yn gyffredinol, gyda'r rhan fwyaf o adeiladu wedi digwydd unwaith y cysylltwyd y dref â'r rhwydwaith rheilffyrdd. Ymhellach allan mae tai rhes o'r 19$^{eg}$ ganrif, a datblygwyd stadau tai ar ymyl y dref yn yr 20$^{fed}$ ganrif.
- Mae Cwm Abergwaun yn cadw cymeriad agos pentref morol bach. Fodd bynnag, mae'r A487 yn mynd drwyddo, dros bont a ffordd gul ac fe all traffig dynnu llawer oddi ar y lle.
- Oddi allan i'r cylchoedd adeiledig mae'r adnodd archeolegol yn gyfyngedig ond mae'n cynnwys siambrau claddu cynhanesyddol.
- Mae golygfeydd sylweddol i Abergwaun, Cwm Abergwaun ac Wdig o'r tu allan i'r ardal yn ogystal â golygfeydd sylweddol allan o'r ardal i'r parc cenedlaethol i'r dwyrain yn arbennig.
- Mae cysylltiad cryf rhwng y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus â mynediad at yr arfordir a thir glas gyda chysylltiadau â'r llwybr Cenedlaethol (llwybr yr arfordir).
- Mae cysylltiadau diwylliannol wedi newid gyda threigl amser wrth i gludiant fferi modern ddisodli diwydiannau hŷn a masnach yr harbwr, a gweithgareddau crefyddol a hwylio. Mae gwaith ar y gweill i wella cysylltiadau ffyrdd a throedffyrdd a bydd cysylltiadau trên a ailsefydlwyd yn ddiweddar yn dylanwadu ymhellach ar weithgaredd diwylliannol. Caiff y Gymraeg ei siarad yn y gymuned ac mae enwau lleoedd yn adlewyrchu traddodiadau ieithyddol lleol.

**Rhinweddau Allweddol**

*Cadwodd creiddiau hanesyddol Wdig, Abergwaun a Chwm Abergwaun eu cymeriad er bod symudiad traffig trwm a sŵn cysylltiedig yn effeithio ar Abergwaun a Chwm Abergwaun. Draw o'r creiddiau hanesyddol, mae datblygiad yr 20fed ganrif yn anghydnaws ar yr ymyl trefol. Mae amgyffred o gysylltiad cryf yn dal gyda'r lleoliad morol ac mae mynediad at yr arfordir yn creu ymdeimlad o lonyddwch draw o brysurdeb y cylchoedd trefol. Mae porthladd y fferi'n creu dimensiwn diwylliannol modern rhyngwladol o bwys cenedlaethol, ac mae eu pwysigrwydd fel canolfannau teithio a masnach yn cysylltu Wdig ac Abergwaun. Daw cyfleoedd i gyrchu'r amgylchedd morol ar lan y môr yn Wdig a'r harbwr yng Nghwm Abergwaun lle mae golygfeydd a seiniau'r arfordir yn treiddio. Mae Cwm Gwaun yn ymestyn i'r dwyrain.*

## Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

### Ddoe a Heddiw

- Yn hanesyddol, bu llifogydd yn yr ardaloedd arfordirol isel gan gynnwys darnau o ddatblygiad adeiledig.
- Mae goleuni ymhob rhan o'r cylch trefol ac adeiledig yn peri llygredd goleuni ac yn creu ymdeimlad eglur o ddiogelwch yn y porthladd fferi.
- Mae un datblygiad tyrbinau cymedrol / ar raddfa fawr y tu ôl i Abergwaun i'w weld yn eang.
- Fe effeithioddd llif traffig modern ar amwynder craidd hanesyddol Abergwaun a Chwm Abergwaun.
- Yn gyffredinol, nid yw datblygiad ar ymyl y cylch trefol yn adlewyrchu'r cymeriad hanesyddol.
- Mae ffordd osgoi Abergwaun yn noeth o fewn y dirwedd leol.



*Dolen Gyswllt Chimneys yn Abergwaun*



*Cymeriad adeiledig a lleoliad Wdig*

### Y Dyfodol

- Mae newid yn yr hinsawdd yn debygol o effeithio ar Waun Wdig a Chwm Abergwaun isel gan beri mwy o debygolrwydd llifogydd.
- Byddai parhad gweithrediad y cyfleuster fferi a phosibilrwydd buddsoddi mewn marina o ddyluniad teimladol yn ychwanegu at fywiogrwydd y cylch trefol.



*Yr olygfa dros y porthladd fferi a'r glannau o Clement Road*



*Yr olygfa o ymyl y ffordd i Gwm Abergwaun wrth gerdded o'r gogledd*

**Pethau Sensitif Allweddol**

- Cynnal cymeriad y morlin na ddatblygwyd draw o'r cylch trefol.
- Cadw'r ymdeimlad o gymuned lle caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu siarad.
- Byddai darfod traffig y fferi'n cael cryn effaith andwyol ar economi'r anheddiad a'r cylch ac yn effeithio ar y dirwedd drefol.
- Bydd yr hinsawdd yn effeithio ar Waun Wdig a Chwm Abergwaun isel yn cynyddu hyd a grymuster llifogydd ac ar blanhigion ac anifeiliaid, a datblygiad adeiledig.
- Mae angen osgoi datblygu ar y gorwel gan gynnwys datblygiadau ynni adnewyddadwy.

**Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella**

- Cynnal cymeriad yr Ardaloedd Cadwraeth hanesyddol a gosodiad adeiladau Rhestredig trwy gynnal a chadw, adnewyddu neu ailddatblygu ystyriol.
- Cadw cymeriad morol glannau Wdig a Chwm Abergwaun.
- Ceisio lleihau effaith patrymau cludiant ar wead cymdeithasol y gymuned.
- Cadw a chyfoethogi'r tir glas rhwng Wdig ac Abergwaun, trwy annog mynediad teimladol ar gyfer adloniant a hybu anifeiliaid a phlanhigion.
- Pan fo hynny'n briodol meddalu ymylon trefol gyda chuddio a phlannu ystyriol.



*Datblygiad ymyl trefol*



*Golygfeydd allweddol i'r gogledd o'r Slade*



*Cylch yr Orsedd o Eisteddfod 1936 ym Mhenslade gydag Abergwaun yn y cefndir*


| **ACT a SCA Awdurdodau Cyfagos** |
| --- |
| **APCAP:** ACT 21 Pen Caer<br>SCA10 Pen Crincoed a Phen Caer, SCA7 Harbwr Wdig ac Abergwaun |

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 4: MYNYDD CILCIFFETH

### Lleoliad:

**Mae'r ACT hon yng ngogledd Sir Benfro am y ffin â'r Parc Cenedlaethol ger Cwm Gwaun wrth droed Mynydd Preseli. Gyda Mynydd Cilciffeth a Mynydd Ysgubor yn ganolbwynt, mae'r ardal yn ymestyn i'r gorllewin i gyfeiriad yr A40.**










*Golygfa o Fynydd Cilciffeth o Gomin Cas-mael*



*Yr olygfa dros Drecŵn o Fynydd Cilciffeth (Mynydd Craig-lwydd)*

### Disgrifiad Cryno:

**Yr ACT yn gyffredinol yw ucheldir amaethol agored Mynydd Cilciffeth a Mynydd Ysgubor gyda chaeau rheolaidd ac afreolaidd, planhigfeydd conwydd, ffermydd gwasgaredig a bythynnod ar wahân. Daw coed aeddfed ar ymylon caeau'n brin ar dir uwch ac fe'u camwyd gan y gwynt gan greu ymdeimlad o ddinoethiad. Mae rhostir yn aros ar gopa Mynydd Cilciffeth. Nid oes unrhyw anheddau yn yr ardal.**

**Nodweddion Allweddol**

- Llechen Ordofigaidd yn bennaf yw'r ddaeareg sylfaenol gyda nentydd a tharddelli'n ymddangos a gwasgariad o gerrig arwyneb ac yn ffurfio trum rhwng Mynydd Ysgubor a Mynydd Cilciffeth.
- Mae natur ucheldir cryf gyda ffermydd gwasgaredig, bythynnod ar wahân, coedwig a phrysgwydd gydag amgylchedd amaethyddol ac yn caniatáu golygfeydd benthyg i'r dwyrain ar draws mynydd Preseli.
- Rhostir agored a gweundir sy'n nodweddu Mynydd Cilciffeth. Mae natur agored yr ardal yn cynnig ei hun i olygfeydd benthyg eang ar draws yr ardaloedd cyfagos o dir amaeth bryniog a chymoedd i'r arfordir.
- Yn gyffredinol mae ffermydd yn y cylch yn ffurfio grwpiau adeiladau cnewyllol ac isel yn y dirwedd, gyda deunyddiau a dyluniad traddodiadol yn parhau. Mae adeiladau amaethyddol modern yn gyffredinol gymedrol o ran lliw ond yn gallu bod yn niferus.
- Yn yr amgylchedd hanesyddol mae tystiolaeth yn parhau o weithgaredd defodol / angladdol cynhanesyddol ar Fynydd Cilciffeth a Mynydd Ysgubor a chyfres helaeth o nodweddion anheddiad / amaethyddol o amryw gyfnod, mewn cyflwr da. Amgaeadau mawr a'r 19$^{eg}$ ganrif yn bennaf yw'r ffurfiau caeau rheolaidd ac afreolaidd.
- Yn ddiwylliannol mae'n ffurfio rhan o gylch ehangach o gymeriad mwy dwyieithog na thiroedd isel tua'r de, ac mae enwau lleoedd Cymraeg yn dal i atgyfnerthu hynny.
- Mae cynefinoedd tirwedd ar Fynydd Cilciffeth yn cynnwys gweundir gwlyb, a phorfeydd sur a chorslyd ac mae'n wahanol i'r glaswelltir wedi'i wella sy'n gorchuddio llawer o'r ardal a choed conifferaidd a blannwyd tua'r gorllewin.

## Rhinweddau Allweddol

*Mae golygfeydd panoramig eang allan o'r ardal yn creu ymdeimlad cryf o le ac yn ymestyn dros gymoedd coediog tua'r gorllewin, yr arfordir tua'r gogledd a mynydd Preseli i'r dwyrain. Ar gopa Mynydd Cilciffeth mae'r rhostir a chraig noeth yn ychwanegu at nodweddion deniadol yr ardal hon lle mae seinwedd naturiol yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o dir agored a llonyddwch. Mae'r ucheldiroedd yn cadw ymdeimlad o ddinoethiad a gwylltineb tra bo'r llethrau isaf yn ffurfio rhan o'r dirwedd reoledig ehangach ar gyfer amaethyddiaeth a choedwigaeth, lle nad yw ffermydd a bythynnod ar wahân a chaeau gyda physt a gwifrau yn hytrach na charreg a chlawdd eto'n drech na'r ymdeimlad o hanes. Mae mathau traddodiadol o dai, buarthau bach ac adeiladau clòs ac absenoldeb adeileddau cyfathrebu ac ynni adnewyddadwy modern yn y dirwedd yn cynorthwyo atgyfnerthu ymdeimlad o hanes.*

**Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)**

**Ddoe a Heddiw**

- Fe all planhigfeydd conwydd ychwanegu diddordeb ond maent yn amharu ar gymeriad ucheldir a chydlyniad y dirwedd at ei gilydd.
- Mae'n ymddangos bod rheolaeth yr ucheldiroedd yn gyson, er y gwyddys ei fod yn dirywio a bioamrywiaeth yn cael ei cholli. Mae cyflwyno planhigfeydd conifferaidd a thirwedd o gaeau rheolaidd yn is i lawr yn creu ymdeimlad o dirwedd wledig reoledig dros ben.
- Mae pyst a gwifrau i'w weld trwy gloddiau a reolwyd yn wael.
- Fe all carafanau ar wahân ymddangos ar ymylon caeau er bod eu defnydd yn aneglur.



*Adeiladau fferm isel a disylw ger Cas-mael*



*Adeiladau fferm traddodiadol a modern yn ffurfio grwpiau cnewyllol wrth droed Mynydd Cilciffeth*

**Y Dyfodol**

- Graddfa a chymeriad amhriodol datblygiad sy’n gallu effeithio ar gymeriad yr ucheldir a chymeriad y dirwedd yn ogystal â gwerth gweundir a rhostir i fioamrywiaeth.
- Rheoli gwrychoedd a dyfodiad rhagor o ffensys pyst a gwifrau a cholli terfynau caeau.



*Annedd ar ei phen ei hun ar y llethr*



*Golygfeydd eang allan i’r arfordir*

**Pethau Sensitif Allweddol**

- Cymeriad ucheldir agored a heb ei ddatblygu.
- Maint, ffurf a lliw adeiladau fferm.
- Golygfeydd eang allan o’r ardal.
- Cadw terfynau caeau o ddeunyddiau ac adeiledd traddodiadol.

**Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella**

- Ystyried priodoldeb planhigfeydd conwydd yn nhirwedd yr ucheldir a chynyddu’r gallu i gymhathu i’r dirwedd ar ôl ei chlirio trwy ailblannu gyda rhywogaethau collddail a thirwedd hanesyddol o gaeau.
- Adfer rheoli gwrychoedd cylchol priodol lle tyfodd terfynau caeau’n wyllt neu denau a chadw terfynau caeau hanesyddol.
- Cadw gweddill y darnau o borfa gorslyd a rhostir.
- Sicrhau nad yw cymeriad ucheldir ac agored yn cael ei fygwth gan ddatblygiadau preswyl neu ddatblygiadau eraill gan gynnwys adeileddau fertigol neu ar y gorwel.
- Sicrhau parhad adeiladau fferm cnewyllol o raddfa briodol a lliw disylw.




*Ffensys pyst a gwifrau*



*Clawdd ar lethrau Mynydd Cilciffeth*



*Ffos ddraenio*


| ACT Awdurdodau Cyfagos |
| --- |
| **APCAP:** ACT 27 Mynydd Preseli; ACT 26 Cwm Gwaun / Afon Nyfer |

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 5: GWASTADEDDAU SCLEDDAU

## Lleoliad:

**Mae'r ACT hon yng ngogledd Sir Benfro ac yn uniongyrchol i'r de o gylch trefol Abergwaun gan ymestyn i'r de drwy Dreletert ac i gyfeiriad Walton East. Mae'r A40 yn mynd drwy'r ardal.**








*Yr olygfa i'r de drwy adwy cae rhwng Treletert a Chasnewydd-bach*



*Yr olygfa i'r de-orllewin i gyfeiriad Trefgarn o fan ger Cas-mael*



*Yr olygfa i'r gogledd i ardal fechan o lain-gaeau canoloesol creiriol i'r dwyrain o Scleddau*

## Disgrifiad Cryno:

**Yr ACT hon yn gyffredinol yw tirwedd amaethyddol fryniog gyda phentrefi mawr yn cynnwys Treletert, Cas-mael a Scleddau ac anheddau gwasgaredig llai ymhobman. Mae'r ardal yn cynnwys clytiau achlysurol bach o brysgwydd rhostir, coetir a nentydd ar loriau cymoedd.**

### Nodweddion Allweddol

- Ffurfiwyd y ddaeareg o gribau eang o greigwely llechen waddodol Ordofigaidd, yma ac acw yng nghanghennau cyfundrefn afonydd cwm Cleddau Wen (dyffrynnoedd afonydd llydan a hiciau ynddynt ymhellach i'r dwyrain yn unig) a sianelau dŵr tawdd rhewlifol cysylltiedig, gwaddodion dyffryn rhewlifol a ffrwd-rewlifol.
- Yn gyffredinol mae'n dirwedd amaethyddol fryniog gyda phentrefi mawr yn cynnwys Treletert a Scleddau ac anheddau gwasgaredig llai drwy'r ardal gyfan. Mae'r ardal yn cynnwys clytiau achlysurol o brysgwydd rhostir, coetir a phlanhigfa ac mae'n cynnwys nentydd ymhobman. Mae

darnau tir uchel yn cynnig golygfeydd allan i'r gogledd ac i'r dwyrain i Fynydd Preseli a'r arfordir, sy'n ychwanegu at yr ymdeimlad o le.

- Mae cyfran fawr o adeiladau amaethyddol yn fodern, o adeiladwaith ffrâm ddur a llenfetel yn ogystal ag adeiladau preswyl modern mewn anheddau, yn bennaf o frics a blociau wedi'u rendro.
- Ffurfiwyd y patrwm ffyrdd o rwydwaith o lonydd cul a ffyrdd un lôn, gyda chefnffordd yr A40 yn torri drwy'r ochr orllewinol o Hwlffordd i Abergwaun yn y gogledd ac yn creu difethwr gweledol a sŵn lleol.
- Mae tirwedd caeau amaethyddol yn gyffredinol fach ac amgaeëdig yn ogystal â rhai caeau mawr wedi'u rheoli'n ddwysach gyda gwrychoedd amrywiol, rhai'n denau a rhai wedi'u disodli gan byst a gwifrau.
- Mae nifer mawr o safleoedd cofnodedig yn enwedig Henebion Rhestredig cynhanesyddol a chanoloesol a nifer o adeiladau rhestredig yn yr adnodd archeolegol. O amgylch pentref Treletert mae cyfundrefn o lain-gaeau canoloesol ffosiledig. I'r de o Abergwaun goroesodd caeau agored canoloesol cyfunedig, wedi'u hamgáu'n lleiniau gan argloddiau caregog.
- Yn ddiwylliannol, mae'r ardal hon yn ffurfio rhan o gylch ehangach, o gymeriad mwy dwyieithog na'r gwastadeddau yn ne'r sir sy'n cael ei adlewyrchu mewn cymysgedd gyffredinol o enwau lleoedd Cymraeg a Saesneg. Yn croesi'r ardal mae ffyrdd a rheilffyrdd sylweddol, y ddau'n dylanwadu ar bwysigrwydd diwylliannol ac economaidd modern.
- Darnau o borfa wedi'i gwella gyda chymharol ychydig o dir âr a rhai darnau bach o gynefinoedd eraill yw cynefinoedd yn bennaf. I'r dwyrain yn arbennig, mae brithwaith o ddarnau o borfa gorslyd, yn enwedig ar hyd cyrsiau dŵr, prysgwydd trwchus, cors wlyb addasedig a choetir collddail yn cynnal nifer o rywogaethau allweddol.
- Canoloesol yw tarddiad llawer o bentrefi a phentrefannau ond datblygiadau'r 20fed ganrif a modern sydd bennaf erbyn hyn.

## Rhinweddau Allweddol

*Mae golygfeydd deniadol i mewn ac allan o'r ardal i gyfeiriad Mynydd Preseli i'r dwyrain yn creu ymdeimlad o le tra bo'r tir amaeth bryniog yn frith o bentrefi a thai yma ac acw yn ogystal â ffermydd yn creu ymdeimlad o hanes maith o reoli amaethyddol ac anheddiad mewn tirwedd fras a gwyrddlas. Yn lleol, mae'r A40 yn ysgubo drwy'r dirwedd gydag ymyriad gweledol a sŵn lleol. Fodd bynnag, mae gan y ffordd gysylltiadau diwylliannol modern pwysig ac mae'n rhoi mynediad i'r Iwerddon trwy'r Porthladd fferi yn Abergwaun.*

## Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

### Ddoe a Heddiw

- Mae dwysáu arferion amaethu wedi newid y dirwedd o gaeau a chyflwyno adeiladau amaethyddol modern anghydnaws sy'n gallu sefyll yn wael yn y dirwedd.
- Yn yr ardal mae tyrbinau gwynt o faint cydnaws yn bennaf yma ac acw yn y dirwedd ond heb fynd yn drech. Datblygwyd parciau haul ar raddfa fawr yn yr ardal.
- Bu datblygiad anghydnaws yr 20fed ganrif ar ymylon rhai pentrefi ynghyd ag ehangu anheddau'n anystyriol.
- Cyfyngwyd datblygiadau meysydd carafanau'n bennaf i safleoedd teithiol ond gallant effeithio ar olygfeydd i'r ardal.



*Yr olygfa i'r gorllewin dros ymyl Scleddau i Gefn Coed*




*Plac Waldo Williams ar gomin Cas-mael cysylltiedig ag amser Waldo fel athro yn ysgol Cas-mael*

**Y Dyfodol**

- Mae dwysáu mwy ar arferion amaethyddol yn debygol o effeithio ar dirwedd cefn gwlad gyda dyfodiad rhagor o adeiladau a llygredd goleuni, yn enwedig dros dirweddau agored.
- Mae datblygiad preswyl mewn anheddau'n debygol o ymestyn pentrefi i gefn gwlad.

**Pethau Sensitif Allweddol**

- Rheoli gwrychoedd ac effaith hynny ar y dirwedd amaethyddol,
- Patrwm a therfynau caeau, yn enwedig o weddillion llain-gaeau canoloesol.
- Gallai llygredd goleuni ac ymestyn i ardaloedd gwledig cyfagos fod yn sylweddol dros ardaloedd o dirwedd agored.



*Golygfa allan dros Drecŵn (ACT 27) o'r de-orllewin*



*Yr A40 i Dreletert o'r de*

**Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella**

- Dylai datblygiad pellach mewn pentrefi yn yr ardal sicrhau meddalu ymylon pentrefi a'u hymdoddi yn y dirwedd.
- Cadw a chyfoethogi ardaloedd cynefinoedd lle nad oes gymaint o reolaeth, gan gynnwys rhostir (Tre-groes a Threletert) a phorfa gorslyd.
- Hybu cynlluniau goleuo ystyriol i gynorthwyo cynnal a lleihau llygredd goleuni lleol presennol.



*Yr olygfa i'r gorllewin o fan i'r gorllewin o Lanychâr*



*Comin Cas-mael*



*Carafán deithiol mewn man uchel yn nwyrain yr ardal a allai gael effaith dymhorol*

| **ACT Awdurdodau Cyfagos** |
|---|
| **APCAP:** ACT 27 Mynydd Preseli; ACT 26 Cwm Gwaun / Afon Nyfer<br>SCA7: Harbwr Abergwaun ac Wdig<br>SCA6: Dwyrain Bae Abergwaun |

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 6: MYNYDDOEDD TREFGARN A PLUMSTONE

### Lleoliad:

**Mae'r ACT hon yng ngorllewin Sir Benfro am y ffin â'r Parc Cenedlaethol tua'r gorllewin ger Niwgwl. Mae'n cynnwys Mynyddoedd Dudwell, Plumstone, Leweston a Threfgarn Fawr, ffermydd unigol, anheddau ar eu pennau'u hunain a darnau o Nant-y-coi.**








*Yr olygfa i Fynydd Trefgarn Fawr o Fynydd Plumstone*



*Yr olygfa ar Fynydd Trefgarn Fawr o'r dwyrain*



*Yr olygfa dros Fynyddoedd Plumstone a Dudwell o'r gogledd*

### Disgrifiad Cryno:

**Yr ACT hon yn gyffredinol yw bryniau ucheldirol isel o rostir agored a dinoethiadau creigiog ar Fynyddoedd Plumstone a Dudwell. Ar y llethrau mae tir pori amgaeëdig gydag ychydig ddarnau o goetir bach byr ymysg y caeau petryal ar ganol a rhannau isaf y bryniau, gan gynnwys planhigfa gonwydd reoledig ac ymyl coediog Nant-y-coi.**

| **Nodweddion Allweddol** |
|---|
| • Creigiau folcanig Ordofigaidd caled yw'r ddaeareg sylfaenol yn bennaf yn ffurfio crib gul rhwng dwyrain a gorllewin gyda nodweddion moel creigiog ac yn serth mewn mannau. Mae chwareli hanesyddol bach yma ac acw.<br>• Tir pori'n bennaf, bob yn ail â'r dirwedd amaethyddol mae rhostir agored ar Fynydd Dudwell a phlanhigfa gonwydd i'r de-orllewin. Mae patrymau caeau petryal rheolaidd yn awgrymu amgáu tir comin blaenorol, efallai o'r canoloesoedd, yn y 18$^{fed}$ ganrif neu'r 19$^{eg}$ ganrif.<br>• Y patrwm anheddu yw ffermydd gwasgaredig ac anheddau ar eu pennau'u hunain islaw'r gefnen gydag absenoldeb pentrefi, pentrefannau neu gasgliadau mawr o adeiladau amaethyddol.<br>• Mae yno gynefinoedd lled-naturiol o brysgwydd trwchus a rhostir gwlyb gydag ardaloedd o redyn a choetir conifferaidd planedig, ynghyd â dolydd o laswellt y gweunydd. Mae Nant-y-coi'n ymdroelli ar hyd llawer o'r terfyn gogleddol.<br>• Mae golygfeydd allweddol o Gastell y Garn a'r arfordir tua'r gorllewin, a Mynydd Preseli i'r dwyrain dros y brigiadau craig a Cheunant Trefgarn a thir amaeth bryniog, a golygfeydd pell i'r gogledd-orllewin o frigiadau craig ger Tyddewi ac, ambell waith, Ynys Dewi.<br>• Y patrwm ffyrdd yw lonydd sengl gyda gydag a heb wyneb sy'n rhoi mynediad at ffermydd ac eiddo unigol, gyda'r B4330 yn rhannu'r ardal o'r gogledd i'r de.<br>• Rhanedig yn ddiwylliannol gan linell y Landsger, mae creigiau Plumstone a Threfgarn yn dirnodau lleol adnabyddus yn rhoi cyfleoedd adloniadol a golygfeydd eang allan o'r ardal.<br>• Mae archeoleg gofnodedig yn cynnwys beddrodau cynhanesyddol o'r Oes Efydd, Rhathlan amddiffynnol a chwareli ôl-ganoloesol. |

| **Rhinweddau Allweddol** |
|---|
| *Caiff ymdeimlad o le ei greu gan natur agored a noeth y grib. Mae darnau o rostir a brigiadau craig yn darparu cynefin, diddordeb gweledol a chyferbyniad i'r dirwedd o dir pori amaethyddol dan reolaeth ddwys o'i amgylch. Mae golygfeydd eang allan o'r ardal ar dirweddau gwledig cyfannedd a than reolaeth ddwys, gan gynnwys datblygiadau'r Aber tua'r de, yn dileu unrhyw ymdeimlad o unigedd. Fodd bynnag, ardaloedd draw o sŵn traffig, yn enwedig yr A40, cadw rhagoriaeth heddychlon, ac mae cysylltiadau diwylliannol lleol yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o le. Mae rhostir gwlyb, gwaun, planhigfa gonwydd, a nant gyda glannau coediog yn darparu amrywiaeth eang o gynefin.* |

**Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)**

**Ddoe a Heddiw**

- Mae cynnal a rheoli gwrychoedd yn anghyson ac mae colli gwrychoedd a'u disodli gan ffensys pyst a gwifrau'n arbennig o amlwg yn Nhrefgarn Fawr. Mae ffensys pyst a gwifrau'n rhoi llai o gysgod i dda byw, llai o gynefin ac yn dylanwadu i greu cymeriad tirwedd fwy agored.
- Mae adeiladau fferm yn gyffredinol isel ac yn sefyll o fewn ffermydd. Mae blocwaith modern wedi disodli deunyddiau traddodiadol, ac mae lliwiau'n ddisylw.
- Yn y gorffennol plannwyd blociau onglog cymharol fychan o gonwydd rheoledig ar y terfyn de-orllewinol.

- Mae ardal adloniadol Plumstone yn fynedfa i dir mynediad agored, ond mae arwyneb caled yn difetha cymeriad naturiol y rhostir fel y gwna'r gyforgronfa a'r ffensys pren.
- Mae difethwyr gweledol yn cynnwys tyrbinau i'r dwyrain ac i'r gogledd, ac maent yn arbennig o amlwg dros Geunant Trefgarn.
- Mae anheddau ar wahân o'r 20fed ganrif yn brin o arddull brodorol lleol ac yn cyflwyno deunyddiau modern.





*Llwybr rhostir gyda mynediad i Fynydd Dudwell, a golygfeydd i'r dwyrain dros Geunant Trefgarn*

**Y Dyfodol**

- Newid parhaus trwy foderneiddio adeiladau amaethyddol a dirywiad gwrychoedd yn gyffredinol yn effeithio ar ddatblygu gwasgaredig traddodiadol a chymeriad y dirwedd.
- Posibilrwydd rheoli tir yn gadarnhaol o gwympo'r blanhigfa gonwydd, efallai i ffurfio coetir llydanddail neu waun.
- Posibilrwydd gwrthdaro rhwng pwysau adloniant a gwarchod natur yn Plumstone yn effeithio ar gyfanrwydd cynefinoedd.





*Lle picnic adloniadol mewn rhostir gwlyb yn Dudwell, pyst a gwifrau yn Nhrefgarn Fawr*

**Pethau Sensitif Allweddol**

- Newidiadau ym mhatrymau caeau a thrin terfynau'n effeithio ar gymeriad yr ardal at ei gilydd.
- Posibilrwydd cyfuno ffermydd a dwysáu defnydd tir, neu adeiladu adeiladau mwy ar ffermydd.
- Cyflwyno adeileddau fertigol goramlwg sy'n absennol o'r ardal ar hyn o bryd, gan gynnwys ynni adnewyddadwy ac antenau
- Cyflwyno rhagor o ddatblygiad adeiledig gan gynnwys anheddau unigol ac ehangu anheddiad Trefgarn i'r ardal.
- Newidiadau mewn rheoli rhostir a ffriddoedd a'u colli i reoli amaethyddol dwysach.

**Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella Local Landscape**

- Gwarchod y gweundir a rhostir agored ar Fynydd Plumstone trwy sicrhau bod pori er lles cadwraeth yn cael ei reoli'n dda a'i warchod. Mae colli pori'n peri colli cynefin i brysgwydd.
- Cynnal ansawdd agored yr ucheldir sydd â dylanwad gweledol ymhell oddi allan i'w ffiniau, gan gadw graddfa fach a natur bresennol datblygiad adeiledig.
- Planhigfa gonwydd y Sarn - rheoli wrth i goed gyrraedd aeddfedrwydd a phosibilrwydd cwympo i gyfoethogi bioamrywiaeth.
- Gwella a chyflwyno cysylltiadau rhwng cynefinoedd lled-naturiol o fewn ac ar bwys yr ardal.
- Hybu mynediad adloniadol priodol a gwella dealltwriaeth o rywogaethau, cynefinoedd a threftadaeth archeolegol yr ardal.
- Gwrthwynebu gosod adeileddau mawr a fertigol yn y dirwedd.
- Parhau pori traddodiadol i gynnal a gwella gwerth cadwraeth.


Merlod yn pori ar dir mynediad agored ger effaith galed ffensys y gronfa ddŵr


Tyrbinau'n effeithio ar olygfeydd i gyfeiriad brigiadau tua'r gorllewin a Mynydd Preseli tu hwnt


Fferm mewn lle da yn y dirwedd


| ACT Awdurdodau Cyfagos |
| --- |
| **APCAP:** ACT 13 Nant y Brandy |

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 7: PELCOMB A SIMPSON CROSS

## Lleoliad:

**Mae'r ACT hon i'r gorllewin o Hwlffordd, am y terfyn â'r Parc Cenedlaethol tua'r gorllewin. Mae'r A487 yn torri drwy'r ardal i gyfeiriad Dinas Tyddewi ac mae Afon Cleddau Wen yn mynd heibio i'r dwyrain.**








*Ffordd Hwlffordd i Dale ar y gyffordd i Broadway*



*Yr olygfa o'r A487 i'r gogledd-ddwyrain, gyda Mynydd Dudwell (ACT 6) yn y cefndir*



*Yr olygfa i'r gogledd-ddwyrain ac i'r gorllewin o Portfield Gate.*

## Disgrifiad Cryno:

**Yr ACT hon yn gyffredinol yw tirwedd amaethyddol, fryniog gyda chymoedd bach coediog gwasgaredig a darnau o dir uwch gyda phorfa arw. Mae afon Cleddau Wen yn mynd heibio oddi allan i derfyn dwyreiniol yr ardal. Mae pentrefi bach, pentrefannau, ffermydd a thai annedd unig yn britho'r ardal. Mae golygfeydd benthyg a chipion o'r arfordir tua'r gorllewin yn gyfyngedig.**

## Nodweddion Allweddol

- Y ddaeareg sylfaenol yw creigiau llaid Ordofigaidd a Silwraidd gwaddodol, grut melinfaen yn llethrau isel hir a chymoedd nentydd dyfnion.
- Tir amaeth bryniog gyda phentrefi gwasgaredig bach yn cynnwys Simpson Cross, Camros, Keeston, Pelcomb Cross, Dreenhill a Portfield Gate, a gyfoethogir gan gymoedd coediog llonydd achlysurol iawn a chipion o'r arfordir o ardaloedd gorllewinol. Caeau amaethyddol o amrywiol feintiau gyda thir uwch agored achlysurol yn darparu porfa agored a chymoedd coediog is dan reolaeth lai dwys.
- Yr adnodd archeolegol yw tystiolaeth sylweddol o anheddiad a gweithgaredd defodol / angladdol cynhanesyddol, patrwm caeau'n cynnwys llain-gaeau creiriol (Wolfsdale) a llociau amddiffynedig.
- Yn ddiwylliannol, mae'r ardal nodwedd hon yn ffurfio rhan o'r gwastadedd amaethyddol ehangach, bras o gymunedau Saesneg tua'r dwyrain a'r de'n arbennig.
- Glaswelltir wedi'i wella ar gyfer tyfu yw'r cynefin yn bennaf gyda rhwydwaith o wrychoedd amrywiol gyda darnau bach o brysgwydd trwchus, porfa gorslyd a rhubanau o goetir llydanddail lled-naturiol ar hyd cyrsiau dŵr sy'n debygol o gynnal rhywogaethau LBAP mwy cyffredin. Yng ngogledd yr ardal, mae coetir collddail a chonifferaidd a darnau cysylltiedig o waun a rhedyn i'w gweld.
- Mae'r A487 yn croesi'r ardal o Hwlffordd i'r Garn ac yn rhoi golygfeydd agored i'r ardaloedd oddi amgylch, tra bo rhwydwaith o ffyrdd B ac isffyrdd yn rheiddio drwy'r ardal.

## Rhinweddau Allweddol

*Mae golygfeydd benthyg achlysurol o'r arfordir, a brigiadau creigiog yng nghyffiniau Trefgarn Fawr o dir uwch, golygfeydd pell i gyfeiriad Mynydd Preseli i'r dwyrain a phurfeydd yn yr Aber tua'r de'n cyfrannu at yr ymdeimlad o le. Mae cymoedd cysgodol tawel yn rhoi rhyddhad o draffig prysur ffordd A mewn mannau, ac mae llawer o'r ardal yn dir amaeth bras rheoledig gydag adeiladau fferm yn swatio yn y dirwedd.*

### Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

### Ddoe a Heddiw

- Yn gyffredinol mae adeiladau amaethyddol sy'n cynorthwyo arferion diweddar mewn lle da yn y dirwedd.
- Mae llygredd goleuni lleol yn bodoli mewn ffermydd a phentrefi gwasgaredig.
- bythynnod o adeiladwaith traddodiadol o garreg wedi'i rendro yn ffurfio cyfran fawr o adeiladau preswyl. Mae tai modern o frics neu garreg ac wedi'u rendro'n aml. Er nad ydynt yn cyd-fynd ag arddulliau traddodiadol mae eu golwg unigol a disylw'n golygu nad ydynt yn edrych allan o'u cynefin.
- Yn nwyrain yr ardal mae tyrbinau gwynt o faint cymedrol yn difetha golygfeydd lleol tra bo rhai llai'n nodwedd yma ac acw drwy'r ardal gyfan.
- Tra bo dim ond ychydig o feysydd carafanau sydd yn yr ardal nodwedd, mae rhai mewn mannau uchel i gael y golygfeydd gorau i gyfeiriad yr arfordir a Mynydd Preseli. Fel arall mae safleoedd teithiol bach yn anghysylltiedig â'r arfordir ac yn gyffredinol yn swatio yn y dirwedd.




*Maes Carafanau yn Nolton Cross, a fferm gryno mewn lle da yn y dirwedd*

**Y Dyfodol**

- Fe all dal i ddwysáu amaethyddiaeth greu ffermydd mwy a gosod adeiladau amaethyddol yn anystyriol yn y dirwedd gyda chynnydd mewn llygredd goleuni o ganlyniad.




*Yn gyffredinol mae datblygiad ymyl Pentref Simpson Cross o arddull disylw. Nid yw terfyn gorsaf betrol Pelcomb Cross yn ymdoddi i batrymau tirwedd lleol.*

**Pethau Sensitif Allweddol**

- Colli terfynau caeau eglur a ffiniau diogel, priodol i ardaloedd datblygedig.
- Ehangu mwy ar lety ymwelwyr mewn lle amlwg gan gynnwys carafanau sefydlog a theithiol
- Cyflwyno rhagor o dyrbinau gwynt o faint cymedrol mewn mannau agored a'u heffaith unigol neu gronnol ar olygfeydd ehangach.

**Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella**

- Cadw'r dirwedd amaethyddol ac ardaloedd coediog ynddi, gan gynnwys gwrychoedd trwy reoli priodol, a dal gafael ar goed unigol mewn gwrychoedd.
- Sicrhau lleoli adeiladau amaethyddol ychwanegol mewn lle da yn y dirwedd a bod arddull a golwg mae'n briodol.
- Annog rheoli ymylon caeau er lles bywyd gwyllt.
- Sicrhau bod unrhyw lety cysylltiedig â thwristiaeth mewn lle cynaliadwy yn y dyfodol a'i effaith yn dderbyniol.
- Hybu cynlluniau goleuo ystyriol i gynorthwyo cynnal a lleihau llygredd goleuni lleol presennol.



*Tir pori heb ei wella ger Cream Pots*



*Golygfeydd dros dir heb ei drin a thu hwnt ger Sutton*



*Adeilad amaethyddol amlwg ar fin y ffordd*


| **ACT a SCA Awdurdodau Cyfagos** |
| --- |
| **APCAP:** ACT 13 Nant y Brandy; ACT 12 Porth Sain Ffraid; ACT 9 Marloes; ACT 11 Ymyl Purfa Herbrandston<br>SCA 21 Dyfroedd Arfordirol Dwyrain Porth Sain Ffraid |

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 8: HWLFFORDD

### Lleoliad:

**Mae'r ACT hon ynghanol Sir Benfro ac yn perthyn yn agos i brif dref Hwlffordd. Ardaloedd oddi amgylch yn bennaf yw tir isel bryniog agored mewn defnydd amaethyddol, yn ogystal â defnyddiau ar gyfer adloniant, twristiaeth a chludiant gan gynnwys maes awyr Hwlffordd.**








*Yr olygfa i gyfeiriad Stryd y Cei o Picton Fields*



*Yr olygfa i gyfeiriad Hwlffordd o'r A4078 yn Dredgman Hill*



*Tai gyda rendro wedi'i baentio ar hyd Ffordd Aberdaugleddau i gyfeiriad Merlin's Hill*

### Disgrifiad Cryno:

**Yr ACT hon yw cylch trefol Hwlffordd, prif dref y sir. Datblygodd y craidd hanesyddol ar hyd afon Cleddau Wen ac mae'n aros yn ganolbwynt masnachol y dref. Ymhlith y safleoedd hanesyddol mae adfail y priordy, y castell, y carchar a warysau ar lan yr afon. Yn gyffredinol, mae cylchoedd maestrefol yn cynnwys datblygiadau mwy modern fel Coleg Sir Benfro, Ysbyty**

**Llwyn Helyg, Ardal Ddiwydiannol Llwyn Helyg, a datblygiadau preswyl a manwerthu. Yn y fan lle mae'r dref yn codi o'r afon, mae golygfeydd ysgubol tua'r gogledd dros dir amaeth bryniog gyda Mynydd Preseli ar y gorwel, a golygfeydd agosach tua'r de. Yng ngorllewin y dref mae'r cae rasio'n darparu adnodd adloniadol pwysig ac yn cysylltu'r dref gyda chefn gwlad. Mae'r dref yn haeddu ei ACT ei hun oherwydd cymeriad hanesyddol a diwylliannol ei natur adeiledig helaeth.**

**Hwlffordd yw canolbwynt seilwaith y sir gyda llawer o lwybrau cymudo'n cydgyfarfod yn y dref gan gynnwys un o'r llwybrau i Iwerddon a rheilffordd.**

**Nodweddion Allweddol**

- Y ddaeareg sylfaenol yn bennaf yw creigwely carreg laid gwaddodol o siâl Silwraidd gyda nodweddion gwneud a thir wedi'i adennill neu fewnleni drosti. Prosesau ffrwd-rewlifol y gorffennol a phrosesau presennol nant / afon sy'n dylanwadu fwyaf ar ffurf y tir.
- Tai gyda pheth datblygiad manwerthu a diwydiannol sy'n ffurfio'r cylch adeiledig. Er bod y dref yn cadw cymeriad yn ei chraidd hanesyddol, sy'n cael ei ddiffinio gan adeiladau carreg, mewn mannau eraill mae deunyddiau adeiladu'n fodern ac anghydnaws i raddau helaeth ac o arddulliau nodweddiadol o'r ganrif aeth heibio.
- Cynefinoedd yn bennaf yw mannau agored o laswelltir amwynder, coed ar y stryd mewn mannau, darnau bach o goetir collddail, a gweddillion gwrychoedd gyda darnau o brysgwydd ar ymylon ffyrdd. Mae Cleddau Wen a Nant Cartlett yn llifo drwy'r canol ac fe'u dynodwyd o werth gwarchod natur oherwydd planhigion ac anifeiliaid, er bod rhai rhywogaethau planhigion ymosodol yn bresennol hefyd.
- Mae adeiladau ac adeileddau rhestredig yn niferus gan gynnwys datblygiad canoloesol, o'r 18$^{fed}$ ganrif a'r 19$^{eg}$ ganrif i gyd yn cyfrannu at gymeriad hanesyddol y dref. Ymhlith yr elfennau sylweddol mae'r castell canoloesol, cynllun strydoedd canoloesol, lleiniau bwrdais ac eglwysi ac adeiladau o'r 18$^{fed}$ ganrif a'r 19$^{eg}$ ganrif.
- Hwlffordd fu canolfan fasnachol Sir Benfro a phrif dref y sir ers yr 16$^{eg}$ ganrif, gydag arwyddocâd diwylliannol.
- Y patrwm ffyrdd yn bennaf yw'r prif lwybrau cludiant ffordd sy'n cydgyfarfod yn Hwlffordd i wasanaethu gogledd a de'r sir. I gyrraedd y cylch trefol rhaid defnyddio rhwydwaith o ffyrdd B ac isffyrdd, yn gyffredinol gyda llwybrau troed. Mae natur brysur, llawn traffig y dref oherwydd cydgyfeiriant amryw lwybrau cludiant.

**Rhinweddau Allweddol**

*Ers yr 16eg ganrif, yr ardal drefol hon fu canolfan weinyddol y sir. Mae ei chraidd hanesyddol yn cadw ei chynllun canoloesol a llawer o adeiladau rhestredig braf yn yr Ardal Gadwraeth. Mae yma dreftadaeth hanesyddol arwyddocaol yng nghraidd y dref gan gynnwys y castell canoloesol, cynllun strydoedd, adeiladau o'r 18$^{fed}$ ganrif a'r 19$^{eg}$ ganrif ac eglwysi. Mae modd hwylio hyd heddiw ar Afon Cleddau, a ddaeth a masnach i mewn i Hwlffordd ar un adeg, hyd at y dref ac mae'n darparu nodwedd ddeniadol a chanolbwynt allweddol yn y dref. Mae rhai llecynnau glas yn y dref yn ddeniadol, ond mae mathau cymysg o adeiladau a thraffig trwm ar yr A4076 a phriffyrdd cysylltiedig yn amharu ar olwg rhai mannau. Gyda llwybrau cymudo amrywiol yn cydgyfod, mae'n rhoi derbyniad anniogel a swnllyd i ymwelwyr ac yn cyfrannu at ymdeimlad gwan o le at ei gilydd. Mae llygredd goleuni sylweddol cysylltiedig â goleuadau stryd, goleuo cyfleusterau adloniadol ac adeiladau goleuedig, er y gall hyn hefyd greu bywiogrwydd liw nos o'i ddefnyddio'n ystyriol. Cyfyngedig yn gyffredinol yw golygfeydd i mewn i'r dref ac allan ohoni, ond mae modd gweld Mynydd Preseli ar y gorwel tua'r gogledd a chefn gwlad o bant a bryn tua'r de.*

## Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

### Ddoe a Heddiw

- Daeth cryn lygredd goleuni o ddatblygiadau penodol a'r rhwydwaith ffyrdd, gan gynnwys eiddo masnachol a hanesyddol a gweithgareddau adloniadol
- Bu datblygu dwys yn niweidiol i fuddiannau bioamrywiaeth at ei gilydd er bod tramwyfeydd yr afonydd a darnau o brysgwydd a choetir, yn arbennig, yn cynnig gwerth i fywyd gwyllt a seilwaith gwyrdd yn wahanol i amgylchoedd datblygedig.
- Mae nifer cymedrol o adeiladau modern wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau yn y dref ond heb gyfeirio fawr ddim at ei chymeriad hanesyddol.
- Moderneiddio / colli adeiladau traddodiadol, er bod angen buddsoddi mewn amryw adeiladau hanesyddol ar hyd glannau'r afon.
- Colli marchnad wartheg yn y Mart, gan bellhau'r dref o'i chefnwlad amaethyddol.
- Hwlffordd yw canolfan weinyddol y sir ac mae cryn bwysau'n dal i fod ar ei rhwydwaith ffyrdd, gan gyfrannu at y natur brysur, lygredig a llawn traffig. Mae'r Stryd Fawr yn Ardal Rheoli Ansawdd yr Awyr.





*Lletir glas ar hyd Freeman's Way a datblygiad maestrefol yn Snowdrop Lane*

### Y Dyfodol

- Mae dylanwadau newid yn yr hinsawdd yn debygol o arwain at fwy o berygl llifogydd ar hyd tramwyfa'r afon ac i ganolbwynt masnachol y dref.
- Fe all datblygu amhriodol erydu'r cymeriad hanesyddol a diwylliannol a chyfrannu at ymledu.
- Mwy o draffig, llygru'r awyr a gwrthdaro rhwng dulliau symud.
- Perygl diffyg buddsoddi mewn eiddo'n effeithio'n negyddol ar graidd masnachol y dref wrth i batrymau siopa newid.






*Y porth i ganol hanesyddol Hwlffordd a'r amgylchedd afonol lle mae angen buddsoddi mewn adeiladau*

**Pethau Sensitif Allweddol**

- Ardal Gadwraeth Hwlffordd, sef ffurf a chymeriad adeiladau a strydoedd traddodiadol, gan gynnwys cartrefi ac eiddo masnachol a mannau agored ynghanol y dref.
- Nodweddion hanesyddol ac archeolegol.
- Gwerth Afon Cleddau i gymeriad, adloniant a bywyd gwyllt.
- Bywiogrwydd a chanolbwynt cymunedol canol y dref.

**Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella**

- *Asesu a gwarchod a gwella gwerth mannau agored yn y dref gan gynnwys y parth gwyrdd ar hyd glannau'r afon.*
- *Cynyddu cymeriad ac elfennau deniadol y dref adeiledig trwy welliannau cyhoeddus, adfywio eiddo anghyfannedd a chyflwyno seilwaith gwyrdd newydd.*
- *Sicrhau bod datblygiad newydd yn cydymffurfio â chanllawiau dylunio uchaf gosodiad gofodol, ansawdd pensaernïaeth a mannau cyhoeddus sy'n cyfrannu at ymdeimlad o le.*
- *Mynd i'r afael â gwrthdaro yn y symudiadau gan gynnwys sicrhau'r llwybrau cerdded gorau drwy ganol y dref ac ar hyd yr afon.*
- *Dal i fynd ar drywydd gwelliannau i ansawdd dŵr yr afonydd sy'n llifo drwy'r dref er budd y cyhoedd, adloniant a bywyd gwyllt.*
- *Rheoli rhywogaethau ymosodol.*
- *Datblygu canllawiau goleuo ar gyfer effaith weledol, effaith ar adeiladau hanesyddol a'r effaith ar rywogaethau gwarchodedig.*
- *Manteisio ar gyfleoedd i wella'r ymdeimlad o le ger y pyrth i'r dref ac ynddi.*



*Man agored adloniadol yn Heneb adfail y Priordy'n rhoi Hawl Dramwy Gyhoeddus i ganol y dref*



*Gwelliannau i borth y dref ar gylchfan Pont Fadlen.*



*Llwybrau teithio llesol yn gwella cyfleoedd adloniadol*


| **ACT Awdurdodau Cyfagos** |
| --- |
| **APCAP:** dim ACT<br>Ardal Cymeriad Morwedd 33 Daugleddau |

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 9: GWASTADEDDAU JOHNSTON

## Lleoliad:

**Mae'r ACT hon ynghanol Sir Benfro ac yn swatio i'r de o Hwlffordd, i'r gogledd o Aberdaugleddau ac i'r gorllewin o afonydd Cleddau a therfyn y Parc Cenedlaethol. Mae'n ymestyn i'r dwyrain hyd at derfyn y Parc Cenedlaethol.**








*Tirwedd fryniog nodweddiadol*



*Golygfeydd i'r de o Bolton Hill (i'r gorllewin o Johnston)*



*a'r olygfa i'r de o ymyl Llangwm*

## Disgrifiad Cryno:

**Yr ACT hon yn gyffredinol yw llwyfandir o fryniau a dyffrynnoedd cymedrol rhwng Hwlffordd ac Aberdaugleddau. Amaethu tir pori sydd bennaf gyda chloddiau, coed a stribedi coetir mewn dyffrynnoedd. Yn britho'r ardal mae pentrefi a ffermydd gwasgaredig ac mae ffyrdd dosbarth A prysur - yr A4076 a'r A477, yn cysylltu Hwlffordd gydag Aberdaugleddau a Neyland / Doc Penfro, yn ogystal â lonydd gwledig distaw. Purfeydd a thyrbinau gwynt a pheilonau mewn mannau sydd bennaf yn y golygfeydd i'r de i gyfeiriad yr Aber.**

**Yn Johnston yn arbennig mae defnyddiau masnachol a diwydiannol / busnes ac mae hanner ffordd ar hyd y cysylltiadau cludiant rheilffordd a ffordd rhwng Hwlffordd tua'r gogledd ac Aberdaugleddau tua'r de.**

**Mae'n cynnwys anheddau Johnston, Hook, Llangwm, Hill Mountain, Rhosfarced, Tiers Cross, Burton a Freystrop. Amaethyddol yn bennaf oddi allan i anheddau gyda ffermydd gwasgaredig o dir pori a thyfu cnydau.**

## Nodweddion Allweddol

- Mae'r ddaeareg sylfaenol yn gymhleth ac, yn gyffredinol, mae'n haenau o leidfeini gwaddodol 'Hen Dywodfaen Coch', tywodfeini a charreg laid dan fân ddyddodion rhewlifol, llain lydan o graig igneaidd gyn-Gambriaidd ar draws y canol, yn cynhyrchu tirffurf bryniog braf eithaf unffurf.
- Y patrwm anheddu yw pentrefi a ffermydd yn ogystal ag anheddau ar eu pennau'u hunain mewn tirwedd amaethyddol o gaeau bach a chymedrol, gan gynnwys darnau o lain-gaeau canoloesol.
- Tra cadwyd adeiladau a deunyddiau traddodiadol yn y cylch, mae cymysgedd o ddatblygiad adeiledig modern gan gynnwys defnyddiau preswyl, amaethyddol a masnachol yn drech na'r rhain.
- Ffurfiwyd y dirwedd amaethyddol o dir amaeth bryniog cyffredinol gyson yn creu ymdeimlad cymedrol o le sy'n cael ei ddylanwadu tua'r de oherwydd agosrwydd at Aberdaugleddau a datblygiad cysylltiedig ag ynni.
- I'r dwyrain mae pentrefi a ffermydd gwasgaredig yn britho'r ardal a'i nodwedd yw ei chydberthynas gweledol a ffisegol gydag afon Daugleddau, sy'n rhoi gwedd dawel a dymunol i lawer o'r ardal hon, gyda'r Parc cenedlaethol yn ffurfio'r terfyn.
- Mae golygfeydd tua'r de dan ddylanwad datblygiadau diwydiannol ac ynni adnewyddadwy, yn ogystal â pheilonau mewn rhai mannau.
- Cnewyllol yn gyffredinol yw anheddau, yn bennaf gyda tharddiadau canoloesol. Caiff holl fathau o dai eu cynrychioli, gan gynnwys tai bonedd, tai o'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif a thai diweddarach.
- Yn ddiwylliannol, mae'r ardal hon yn ffurfio rhan o dirwedd o dir pori bras cymunedau Saesneg De Sir Benfro.
- Mae nifer mawr iawn o safleoedd archeolegol o bob cyfnod. Mae nifer mawr o adeiladau rhestredig, gan gynnwys eglwysi canoloesol, ac mae henebion rhestredig yn cynnwys nodweddion amddiffynnol cynhanesyddol, canoloesol ac o'r 18fed ganrif.
- Glaswelltir wedi'i wella gyda pheth tir âr yw cynefinoedd yn bennaf, mewn fframwaith cryf o gloddiau, yn ogystal â choetir collddail a chonifferaidd lled-naturiol, porfa gorslyd, prysgwydd, nentydd a phyllau ar dir gwaelach.

## Rhinweddau Allweddol

*Caiff y dirwedd hon ei rheoli i raddau helaeth ar gyfer amaethyddiaeth ac i gyflenwi ynni adnewyddadwy, fwyfwy, trwy ddatblygiadau tyrbinau gwynt a ffermydd solar sy'n gallu bod yn oramlwg. Mae rhwydwaith anheddu cymharol drwchus, ond mae'r ardal yn cadw golygfeydd mewnol hyfryd fel y rhai mewn dyffrynnoedd ac allan tua'r gogledd lle mae mynydd Preseli i'w weld. Tua'r de caiff golygfeydd eu difetha gan ddatblygu cysylltiedig ag ynni ac mae peilonau anferth yn croesi'r ardal. Mae sŵn traffig yn cael effaith sylweddol lle mae ffyrdd yn brysur yn lleol ond mae llawer o'r ardal yn cadw ymdeimlad o*

*lonyddwch, yn enwedig tuag at afon Daugleddau. Mae etifeddiaeth Saesneg yn amlwg mewn enwau lleoedd ac fe erys y Saesneg yn iaith gryfaf y gymuned.*

**Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)**

**Ddoe a Heddiw**

- Mae rheoli ysgafn priodol o glytiau o goetir a gwrychoedd / cloddiau wedi creu nodweddion deniadol gyda gwerth gwarchod natur.
- Manteisio ar adnoddau mwynol yn chwarel craig galed Bolton Hill a hen lefelydd glo ar raddfa fach.
- Mae'r A4076 a'r A477 a rheilffordd yn croesi'r ardal ac mae sŵn a llif traffig yn ymwthiol yn lleol.
- Mewn mannau mae'r purfeydd, tyrbinau gwynt a pheilonau (datblygiadau cysylltiedig ag ynni) wedi cael y lle blaenaf yn y golygfeydd, yn enwedig tua'r de.
- Datblygwyd ffermydd solar yn enwedig ar hyd llwybrau cludiant ond dim ond yn lleol y maent yn oramlwg ac yn weladwy mewn golygfeydd agos mewn mannau eraill.
- Tai'r 20fed ganrif a datblygiad masnachol sydd bennaf yn Johnston ac fe rannwyd y gan dramwyfa'r A4076 a'r rheilffordd sy'n lleihau cydlyniad yn sylweddol. Mewn mannau eraill mae anheddau mewn cyflwr da at ei gilydd, yn gnewyllol ac o'r canoloesoedd ar waethaf datblygiad modern.
- Mae llygredd goleuni ymwthiol o gwmpas anheddau, yn enwedig mewn cyfleusterau ysgol ac adloniadol, fwyfwy mewn ffermydd ac o'r ymyl diwydiannol tua'r de.



*Mae craidd hanesyddol y rhan fwyaf o anheddau'n dal yn amlwg (Llangwm).*



*Ymwthiad traffig yn Johnston*

**Y Dyfodol**

- Pwysau ychwanegol i ddatblygu ac ymestyn cylchoedd adeiledig presennol mewn anheddau sydd â chysylltiad cymharol dda â phrif drefi.
- Fe all fod pwysau am ragor o ddatblygu ynni adnewyddadwy gydag effaith weledol sylweddol ac erydu cymeriad tirwedd.

- Twf traffig a phosibilrwydd mwy o dagfeydd ar briffyrdd drwy'r ardal.
- Dwysáu arferion amaethyddol yn barhaus a newidiadau i'r dirwedd amaethyddol.
- Posibilrwydd ailddefnyddio rhagor o adeiladau amaethyddol traddodiadol yn briodol.
- Mwy o obeithion teithio llesol a mwy o ddefnydd adloniadol lleol ar lwybrau cerdded / beicio yn ogystal â llwybrau cymudo.




*Fe all rheoli gwrychoedd / cloddiau a dwysáu arferion amaethyddol gael effaith sylweddol ar gynefinoedd a gwarchod natur*

**Pethau Sensitif Allweddol**

- Terfynau caeau a therfynau ymylon trefol eglur.
- Mwy o effaith weledol andwyol o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy cronnol.
- Colli terfynau caeau canoloesol lle mae'r rhain yn aros.
- Dwysáu amaethyddiaeth i dir gwaelach yn enwedig tir gwlyb a dyffrynnoedd.
- Llygredd goleuni'n ymwthio i wybrennau tywyll gwledig y tu hwnt i anheddau.

**Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella**

- Osgoi rhagor o effaith negyddol andwyol ar yr amgylchedd o ddatblygiadau'r dyfodol, seilwaith neu ddatblygiadau diwydiannol yn yr ardal.
- Gwella ansawdd y ffurf adeiledig trwy ganllawiau dylunio priodol.
- Adfer rheoli gwrychoedd yn rheolaidd lle cafodd hyn ei esgeuluso.
- Rheoli cyrion trefi Hwlffordd ac Aberdaugleddau'n ofalus gan sicrhau cynnal terfynau'n dda a chreu gwahaniad.
- Dylid ystyried ailddefnyddio priodol ar gyfer adeiladau ffermydd hanesyddol all fod yn dod i ddiwedd eu defnydd amaethyddol.
- Chwilio am atebion i sicrhau bod traffig yn dal i lifo'n rhydd ar y rhwydwaith ffyrdd a lleihau tagfeydd a llygru'r awyr o ganlyniad.
- Sicrhau bod datblygiadau ynni adnewyddadwy'n cael eu lleoli'n briodol yn y dirwedd ac nad ydynt yn cyfrannu at effaith gronnol negyddol gyda datblygiadau presennol cysylltiedig ag ynni.
- Sicrhau bod unrhyw ehangu'r chwarel yn y dyfodol yn aros wedi'i guddio'n dda.
- Pan fo anheddau'n cyd-daro â'r glannau, rhoi blaenoriaethu i gadw ansawdd yr amgylchedd, adeiladau a chynefinoedd.



*Datblygiad ar lan y dŵr yn Llangwm*



*Fe all fod yn briodol adfer ac ailddefnyddio adeiladau amaethyddol traddodiadol yn ystyriol*



*Sicrhau bod ffermydd solar yn cadw mesurau tirweddol a gweledol*

| **ACT a SCA Awdurdodau Cyfagos** |
| --- |
| **APCAP:** ACT 28 Daugleddau<br>SCA32 Aberdaugleddau Mewnol, SCA33 Daugleddau |

## ARDAL CYMERIAD TIRWEDD 10: GOGLEDD CLEDDAU

### Lleoliad:

**Mae'r ACT hon ar lannau gogleddol Aber Cleddau. Nid yw'n cynnwys cylch trefol Aberdaugleddau ond mae'n cynnwys datblygiadau purfeydd i'r dwyrain ac i'r gorllewin ac amryw anheddau. Yr A477 a rheilffyrdd sy'n ffurfio'r terfyn gogleddol ac ymyl y dref neu'r aber sy'n ffurfio'r terfyn deheuol.**








*Yr olygfa i gyfeiriad Llanstadwel ac Aberdaugleddau o Trafalgar Terrace, Neyland*



*Y ffordd i'r de o Sentry Cross i Waterston*



*Golygfeydd i gyfeiriad hen Burfa Olew Murco o Stad Ddiwydiannol Thornton (ACT 22)*

### Disgrifiad Cryno:

**Tir amaethyddol yn gyffredinol yw'r ACT hon ac mae'n ymestyn i ardaloedd arfordirol lle mae datblygu diwydiannol ac anheddau'n creu ymyl arfordirol adeiledig. Gwahanwyd yr ACT o ardaloedd tua'r gogledd gan gysylltiadau cyfathrebu'r A477 a rheilffyrdd sy'n cynyddu'r dylanwad a'r berthynas gyda chylchoedd diwydiannol arfordirol y derfynell nwy naturiol hylifedig yn Waterston a'r purfeydd olew blaenorol yn Waterston a Robeston Cross yn y gogledd-orllewin. Mae'r ACT hon yn cynnwys anheddau Neyland, Llanstadwel, Thornton, Waterston a Liddeston ond nid yw'n cynnwys Aberdaugleddau.**

**Mae presenoldeb grymus tyrbinau mawr drwy'r ardal gyfan. Ar waethaf etifeddiaeth gref o ddefnyddiau blaenorol mae eithafion gorllewinol a dwyreiniol y glannau'n ganolbwynt hamdden, yn enwedig gweithgaredd dŵr yn Gelliswick a Neyland.**

## Nodweddion Allweddol

- 'Hen Dywodfaen Coch' - tywodfaen gwaddodol Silwraidd yw'r ddaeareg yn bennaf, gyda dyffrynnoedd afonydd a nentydd yn torri drwyddo ar eu ffordd i Aber Cleddau.
- Mae anheddau llai o'r 19eg ganrif a'r 20fed ganrif ac o gymeriad cyffredinol gryno a hirgul. Datblygiad preswyl a chymunedau Saesneg yw'r mwyafrif. Mae cynllun Neyland yn fwy cydlynol ac mae'n cynnwys amrywiaeth ehangach o ddefnyddiau, gan gynnwys diwydiannol ysgafn a masnachol. Yn Neyland mae rhesi tai traddodiadol, at ei gilydd wedi'u paentio mewn lliwiau golau, yn edrych dros y marina, yr aber a hen derfynfa'r rheilffordd.
- Nodweddiadol o'r ardal unwaith oedd amrywiaeth diwydiannau a gweithgareddau, porthladd morol, masnach a physgota ac mae'r rhain wedi datblygu a thyfu neu wedi cilio gyda threigl amser.
- Mae'r ardal yn cynnwys dwy burfa olew flaenorol a gweithfeydd cemegol, gosodiad nwy naturiol hylifedig mawr a llawer o dyrbinau gwynt mawr.
- Ffyrdd dosbarth A prysur a chysylltiadau rheilffordd rhwng gogledd a de sy'n ffinio ymyl ogleddol yr ardal. Y gweddill, er eu bod yn ddistaw i raddau helaeth, yng nghysgod amgylchoedd trefol a diwydiannol.
- Draw o gylchoedd adeiledig, tirwedd o amaethyddiaeth o borfeydd bras gyda chymysgedd o gloddiau a lleiniau cul o goetir mewn dyffrynnoedd. Yn gyffredinol mae'r dirwedd yn un o gaeau rheolaidd mawr heb fawr ddim tir garw ar ôl.
- Mae'r rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cau'r cyhoedd allan o gylchoedd diwydiannol mawr ac mae'n cysylltu'n hytrach â'r rhwydwaith priffyrdd, er bod y llwybrau beicio a cherdded yn ddiweddar wedi ymestyn cyfleoedd teithio llesol. Y prif lwybr hamdden yw Llwybr Arfordir Cymru sy'n mynd ar hyd ymyl deheuol Aber Cleddau.
- Mae'r adnodd archeolegol cofnodedig ac adeiladau rhestredig yn cynnwys adeiladau, adeileddau ac amddiffynfeydd cynhanesyddol, canoloesol, ac o'r 18fed ganrif a'r 19eg ganrif.
- Mae'r ardal bron i gyd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyfrffordd Cleddau.
- O fewn cylchoedd adeiledig ffurfiwyd cynefin i raddau helaeth o erddi a phorfa amaethyddol wedi'i gwella sydd bennaf draw o'r arfordir. Clogwyni isel dan dyfiant naturiol gyda phrysgwydd arfordirol sy'n nodweddu ymyl yr arfordir.

## Rhinweddau Allweddol

*Gwaith nwy naturiol hylifedig gweithredol a hen burfeydd olew (bellach yn cael eu defnyddio ar gyfer storio) sydd â dylanwad gweledol dros y cyffiniau a'r dirwedd ehangach sy'n mynd y tu hwnt i'w dylanwad gweledol ac yn creu ymdeimlad o weithgarwch a diwydiant. Mae purfeydd gweithredol oddi mewn ac oddi allan i'r ardal (tua'r de) yn ychwanegu at yr ymdeimlad hwn trwy ollyngiadau i'r awyrgylch a sŵn ac yn weledol ac ar ymyl y dŵr lle mae glanfeydd yn aros yn Waterston a Gelliswick. Mae marina Neyland yn llwyddo i gadw cysylltiadau â'r amgylchedd dŵr fel adnodd adloniadol a thrwy barhad ei ddiwydiant morol. Mae cymeriad diwydiannol ac arfordirol cryf drwy rannau mawr o'r ardal gyda llwybr yr arfordir yn mynd drwyddynt. Y golygfeydd allweddol allan yw dros yr Aber i ymyl arfordirol sy'n ddiwydiannol ac adeiledig yn bennaf. Mae golygfeydd i'r ardal yn cwmpasu tyrbinau gwynt mawr sy'n ymgodi dros y gorwel mewn mannau. Boddwyd datblygiad purfeydd oedd yno eisoes, a gyfiawnhaodd effaith tyrbinau gwynt mawr ar y dechrau, ac mae modd ystyried bod yr Aber yn orlawn o dyrbinau ar hyd y draethlin ogleddol. Mae llygredd goleuni, yn enwedig o ddatblygiadau cysylltiedig ag ynni, yn effeithio ar awyr y nos ar draws de'r sir. Draw o ymyl yr arfordir mae gwrychoedd lonydd gwledig distaw yn dal ac ymchwyddus ac fe allant yn gyflym greu ymdeimlad o wahaniad o anheddau, ac ategu amaethyddiaeth fras a chynhyrchiol.*

## Newid Tirwedd (Penodol i'r ACT)

### Ddoe a Heddiw

- Goruchafiaeth purfeydd olew a datblygiadau cysylltiedig fel difethwyr gweledol yn ystod y dydd, a llygredd goleuni angenrheidiol liw nos.
- Cyflwyno tyrbinau gwynt mawr yn enwedig yn yr Aber ac ymhellach i'r tir.
- Cadwodd yr anheddau hirgul traddodiadol bach ar y glannau gymeriad hanesyddol i raddau mawr tra bo ardaloedd lle bu datblygiad yr 20fed ganrif yn drwm o ddatblygiad diwydiannol a masnachol llai ystyriol, yn enwedig ar gyrion y cylch adeiledig.



*Datblygiad masnachol ar hyd yr A477 yn Little Honeyborough*



*Yr olygfa o dyrbinau mawr o'r gogledd*

### Y Dyfodol

- Fe allai newidiadau i'r sector ynni tanwydd ffosiledig effeithio ar y dirwedd o ran ehangu safleoedd a phosibilrwydd digomisiynu.
- Pwysau i ddatblygu ymhellach i ymestyn cylchoedd adeiledig i gefn gwlad ond fe all fod gwrthdrawiad gyda thyrbinau presennol gan gyfyngu ar gyfleoedd.
- Fe all patrymau manwerthu ddal i newid a dylanwadu ar gynnal craidd masnachol yn Neyland.
- Cynyddu cyfleoedd hamdden ac adloniant ar y ddyfrfford a thrwy'r rhwydwaith teithio llesol.
- Fe all traffig gynyddu oherwydd gwell cysylltedd i'r de o'r Aber dros Bont Cleddau'n deillio o ddileu tollau
- Cynhesu byd-eang yn codi lefel y môr gan effeithio ar ddatblygiad ar hyd y glannau.



*Golygfeydd i'r dwyrain ar y ddyfrfffordd yn Llanstadwel*



*Yr olygfa i mewn i farina Neyland*

**Pethau Sensitif Allweddol**

- Datblygiad ynni a newidiadau all ddigwydd i'r economi ynni o bwys cenedlaethol a'r effaith o ganlyniad ar y dirwedd o ddiwydiant sy'n nychu neu'n newid.
- Posibilrwydd datblygiad mawr cysylltiedig â harbwr dŵr dwfn yn yr Aber.

**Canllawiau ar gyfer Gwarchod / Cadw / Gwella**

- Atal datblygiad gwasgarog yn y dyfodol ar ymylon anheddau a sicrhau arddull a lleoliad ystyriol o ddatblygiad y dyfodol yn y dirwedd sy'n cadw cymeriad anheddau traddodiadol.
- Gwarchod ardal y marina yn Neyland a gwylfa gysylltiedig dros yr Aber o'r maes parcio.
- Ceisio cadw etifeddiaeth ddiwylliannol a threftadaeth archeolegol yr ardal a'i wneud mor hygyrch i'r cyhoedd ag y bo modd.
- Mae'r ardal arfordirol rynglanwol yn agored i lygredd. Mae angen sicrhau lleihau'r perygl hwn i'r eithaf.
- Cydnabod effaith datblygu tyrbinau gwynt.



*Tir heb ei drin yn hen gloddiad y rheilffordd*



*Golygfeydd allan o Farina Neyland*



*Golygfeydd i mewn i burfa Waterston*

| **ACT Awdurdodau Cyfagos** |
| --- |
| **APCAP:** Dim ACT<br>SCA32 Aberdaugleddau Mewnol |